# Cynllun Gweithredu LGBT: Gwella bywydau pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol

Cyflwynwyd i'r Senedd

gan y Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldebau

drwy Orchymyn ei Mawrhydi

Gorffennaf 2018

Cm 9651

OGL

© Hawlfraint y Goron 2018

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan nodwyd unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti gennym bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn

LGBT Policy Team
Government Equalities Office
Sanctuary Buildings
Great Smith Street
London
SW1P 3BT

ISBN 978-1-78655-668-4

07/18

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan y Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

Cynnwys ........ 3

Rhagair y Gweinidog ........ 4

Crynodeb gweithredol ........ 5

Cyllid ar gyfer cyflawni'r cynllun hwn ........ 7

Iechyd ........ 8

Addysg ........ 11

Diogelwch ........ 14

Y Gweithle ........ 19

Hawliau a'r Gyfraith ........ 21

Data a monitro ........ 23

Cynrychiolaeth ........ 25

Rhyngwladol ........ 27

Camau nesaf ........ 29

# Rhagair y Gweinidog

Mae’r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i wneud y Deyrnas Unedig yn wlad sy’n gweithio i bawb. Rydym eisiau cael gwared ar y rhwystrau sy’n dal pobl yn ôl fel bod pawb yn gallu mynd mor bell ag y gall eu talent fynd â nhw.

Mae’r Deyrnas Unedig heddiw yn gymdeithas amrywiol a goddefgar. Rydym wedi cymryd camau breision dros y degawdau diwethaf i gefnogi pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol, sy’n gwneud cyfraniad hanfodol at ein diwylliant ac at ein heconomi.

Mae gan y Llywodraeth record falch o hybu cydraddoldeb i bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol. O newid y ddeddf i adael i gyplau o’r un rhyw briodi i gyflwyno cynllun gweithredu trawsryweddol cyntaf y byd yn 2011, rydym wedi arwain y blaen o ran y newidiadau. Mae’r Deyrnas Unedig wedi cael ei chydnabod yn gyson fel un o’r gwledydd gorau o ran hawliau i bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol (LGBT) yn Ewrop.

Ond er gwaethaf y camau hyn ymlaen, rydym yn gwybod bod pobl LGBT yn parhau i wynebu rhwystrau sylweddol wrth gymryd rhan lawn mewn bywyd cyhoeddus. Mae’r arolwg LGBT yr wyf wedi ei gyhoeddi heddiw yn dangos hyn yn glir. Mae’r arolwg, yr un cenedlaethol mwyaf o bobl LGBT a gynhaliwyd erioed yn y byd hyd yn hyn, yn gwella ein dealltwriaeth o’r rhwystrau sy’n dal pobl LGBT yn ôl. Mae hefyd yn gweithredu fel galwad i weithredu.

Mae un ystadegyn ar ei ben ei hun yn dweud cyfrolau. Dywedodd dwy ran o dair o ymatebwyr eu bod wedi osgoi gafael yn llaw eu partner o’r un rhyw yn gyhoeddus rhag ofn cael ymateb negyddol. Dylai gafael yn llaw rhywun yr ydych yn ei garu fod yn un o’r pethau symlaf yn y byd; nid rhywbeth sy’n achosi ofni neu oedi. Roedd canfyddiadau anodd mewn meysydd eraill, fel diogelwch, iechyd, addysg a gwaith. Mae gennym ragor o waith i wneud.

Dyna pam fy mod yn falch mai un o’m camau cyntaf fel y Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldeb newydd yw cyhoeddi’r Cynllun Gweithredu LGBT cynhwysfawr hwn. Gyda mwy na 75 o ymrwymiadau, mae’r cynllun traws Lywodraethol yn nodi sut y byddwn yn gwella bywydau pobl LGBT yn ystod cyfnod y Senedd hon. Mae rhai o’r camau allweddol yn cynnwys:

- Penodi cynghorydd iechyd LGBT cenedlaethol i roi arweiniad ar leihau anghyfartaledd iechyd y mae pobl LGBT yn ei wynebu;
- Ymestyn y rhaglen bwlio gwrth-homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd mewn ysgolion;
- Dwyn cynigion ymlaen i ddod â’r arfer o roi therapi tröedigaeth i ben yn y Deyrnas Unedig; a
- Chymryd camau pellach ar droseddau casineb LGBT – gwella’r cofnodi a’r adrodd ar droseddau casineb ac ymateb yr heddlu i hynny.

Fel un o Gynghreiriaid LGBT Stonewall, rwyf wedi bod yn falch o sefyll dros bobl LGBT ac roeddwn wrth fy modd o gael fy mhenodi yn Weinidog dros Fenywod a Chydraddoldebau er mwyn i mi allu chwarae mwy o rôl yn yr agenda yma. Rwyf yn benderfynol o helpu i wneud y Deyrnas Unedig yn wlad sy’n gweithio i bobl LGBT oherwydd beth bynnag yw eich hunaniaeth rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol, dylech allu cyflawni eich potensial yn llawn.

**Y Gwir Anrhydeddus Penny Mordaunt**
Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldebau

# Crynodeb gweithredol

1. **Ym mis Gorffennaf 2017, lansiodd y llywodraeth arolwg cenedlaethol o bobl LGBT.** Roedd yr arolwg ar agor i unrhyw un oedd yn nodi bod ganddo gyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd leiafrifol neu amrywiadau yn ei nodweddion rhyw.[1] Roedd yn gofyn cwestiynau am brofiadau pobl o fyw yn y Deyrnas Unedig a defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Gofynnwyd cwestiynau am addysg, gofal iechyd, diogelwch personol a gwaith.

2. **Derbyniodd yr arolwg fwy na 108,000 o ymatebion dilys, gan ei wneud yr arolwg cenedlaethol mwyaf o'i fath mewn unrhyw le yn y byd.** Roedd yr ymateb hwn yn un nas gwelwyd ei fath o'r blaen, ac roedd dadansoddi'r canlyniadau yn waith sylweddol. Rydym yn awr wedi cyhoeddi canlyniadau o'r arolwg LGBT cenedlaethol, ac rydym yn gobeithio y bydd y canfyddiadau yn adnodd gwerthfawr, nid yn unig i'r llywodraeth, ond hefyd i bawb sy'n gweithio i gefnogi pobl LGBT.

3. **Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i gymryd camau beiddgar ar sail canlyniadau'r arolwg.** Mae'r 'Cynllun Gweithredu LGBT' yn esbonio sut y byddwn yn hybu hawliau pobl LGBT gartref a thramor, a gwella'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio drostynt. Ein gweledigaeth yw i bawb, beth bynnag yw ei gyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rywedd neu nodweddion rhywiol, fedru byw bywyd diogel, hapus ac iach lle gallant fod yn nhw eu hunain heb ofn gwahaniaethu.

4. **Byddwn yn sefydlu 'Cronfa Weithredu LGBT' i gyflawni'r cynllun gweithredu hwn.** Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn dyrannu £4.5 miliwn o gyllid, a fydd ar gael hyd ddiwedd y cyfnod Adolygiad Gwariant ym Mawrth 2020, a bydd yn ceisio arian ychwanegol yn y dyfodol. Defnyddir y cyllid hwn i gyflawni'r ymrwymiadau yn y cynllun hwn, a galluogi'r sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gyflawni prosiectau sy'n ymateb i ganfyddiadau'r arolwg.

5. **Byddwn yn sicrhau bod anghenion pobl LGBT yn ganolog i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.** Dangosodd ein harolwg bod pobl LGBT yn teimlo nad yw eu hanghenion penodol yn cael sylw wrth iddynt ddefnyddio gofal iechyd. Byddwn yn penodi Cynghorydd Cenedlaethol i roi arweiniad ar leihau'r anghydraddoldeb y mae pobl LGBT yn ei wynebu, a byddwn yn ceisio sefydlu model gofal mwy modern i wasanaethau hunaniaeth rhywedd i oedolion yn Lloegr.

6. **Byddwn yn gweithredu fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo yn ddiogel mewn addysg, ac yn gallu cyflawni ei botensial.** Canfu ein harolwg nad yw ein system addysg yn paratoi pobl ifanc LGBT am eu bywyd, a bod bwlio

---

[1] Pan fyddwn yn dweud 'pobl LGBT' rydym yn golygu unrhyw un sy'n nodi ei fod yn lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol neu drawsryweddol, neu sydd a chyfeiriadedd rhywiol arall neu hunaniaeth rhywedd leiafrifol, neu sydd yn rhyngrywiol.

homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd yn broblem y mae'n rhaid i ni ei thaclo o hyd. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni sy'n ymdrin â bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd mewn ysgolion, ac yn sicrhau y bydd y pynciau newydd o Addysg Perthnasau, a Pherthnasau ac Addysg Rhyw yn cefnogi disgyblion, beth bynnag yw eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd fel y maent yn datblygu.

7. **Byddwn yn gweithredu fel bod pobl LGBT yn teimlo yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain ac yn eu cymunedau.** Dengys ein harolwg nad yw llawer o bobl LGBT yn rhoi adroddiad am ddigwyddiadau casineb y maent yn eu profi a bod yr arfer ffiaidd o therapi tröedigaeth yn dal yn fyw yn ein gwlad. Byddwn yn cyflwyno cynigion i ddod â'r arfer o therapi tröedigaeth i ben yn y Deyrnas Unedig, ac yn gweithredu ymhellach ar droseddau casineb fel rhan o'n gwaith adnewyddu ar Gynllun Gweithredu Troseddau Casineb 2016.

8. **Byddwn yn sicrhau bod pobl drawsryweddol yn cael eu trin gydag urddas a pharch.** Dangosodd ein harolwg anfodlonrwydd ar y broses o gydnabod rhywedd. Byddwn yn ymgynghori ar unwaith ar ddiwygio Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 ac yn ystyried sut i wneud y broses gydnabod rhywedd yn llai biwrocrataidd ac ymwthiol.

9. **Byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o'r materion a wynebir gan bobl sy'n dynodi eu bod yn anneuol a phobl sy'n rhyngrywiol.** Rhoddodd ein harolwg gipolwg newydd i ni o brofiadau'r grwpiau hyn, ond mae gennym fwy i'w ddysgu. Byddwn yn lansio Galwadau am Dystiolaeth ar wahân ar y materion a wynebir gan bobl anneuol a rhyngrywiol.

10. **Byddwn yn treialu ffyrdd blaengar o daclo rhagfarn ddofn yn ein cymunedau.** Dangosodd ein harolwg nad yw llawer o bobl LGBT yn gyfforddus gyda'r weithred syml o ddal llaw eu partneriaid o flaen eraill. Byddwn yn gweithio ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i wella cynrychiolaeth pobl LGBT mewn bywyd cyhoeddus, gan dynnu sylw at fodelau rôl a rhoi hyder i bobl fod yn nhw eu hunain yn gyhoeddus.

11. **Byddwn yn cyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y ddogfen hon erbyn diwedd y Senedd hon.** Byddwn yn gwrando ar anghenion pobl LGBT a'r sefydliadau yn y sector LGBT sy'n eu cefnogi wrth i ni gyflawni'r cynllun hwn, ac yn sefydlu Panel Cynghori LGBT newydd i arwain ein gwaith a'n dal i gyfrif. Byddwn hefyd yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Senedd am ein cynnydd.

12. **Er bod hwn yn gynllun gweithredu cenedlaethol, mae'n trafod rhai meysydd polisi sydd wedi eu datganoli.** Bydd yn cael lefelau amrywiol o effaith ar draws pedair cenedl y Deyrnas Unedig, oherwydd y trefniadau datganoli sy'n bodoli.

13. **Dylai pawb yn y wlad hon deimlo yn ddiogel a hapus i fod yn nhw eu hunain, ac i garu'r person y maent yn ei garu, heb gael eu beirniadu na bod mewn ofn.** Dylai pawb, beth bynnag fo eu hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol, gael eu cefnogi i gyflawni eu potensial llawn. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi'r ffyrdd y mae'r Llywodraeth yn gobeithio symud yn nes at y nod hwnnw.

# Cyllid ar gyfer cyflawni'r cynllun hwn

14. **Mae'r arolwg cenedlaethol LGBT wedi tanlinellu amrywiaeth o feysydd lle gellid gwneud gwelliannau i gefnogi pobl LGBT.** Dim ond y llywodraeth all wneud rhai o'r gwelliannau hyn; gallai eraill gael eu cyflawni trwy bartneriaeth gyda sefydliadau sy'n arbenigo mewn gweithio gyda phobl LGBT. Rydym am i raddfa'r ymateb gyfateb i raddfa'r her a nodir yng nghanlyniadau'r arolwg cenedlaethol LGBT, ac mae hynny yn golygu bod angen dull wedi ei gydlynu ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

15. **Amlygodd yr arolwg cenedlaethol LGBT bod ymatebwyr yn gweld elusennau penodol i bobl LGBT yn arbennig o ddefnyddiol wrth chwilio am gefnogaeth.** Ystyrid mai sefydliadau ac elusennau LGBT oedd y rhai oedd o fwyaf o help wrth ymdrin â'r digwyddiadau mwyaf difrifol a brofwyd gan ymatebwyr mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, dywedodd 77% o'r rhai oedd wedi rhoi adroddiad am ddigwyddiad ym myd addysg i sefydliad neu elusen LGBT eu bod wedi eu gweld yn help mawr neu yn rhywfaint o help.

16. **Rydym am sicrhau bod sefydliadau ac elusennau LGBT yn cael eu cefnogi i barhau i ddarparu gwasanaethau y mae pobl LGBT yn dibynnu arnynt.** Rydym hefyd am wneud y mwyaf o'u harbenigedd wrth ddylunio a darparu gwaith y llywodraeth, a sicrhau bod y sector elusennau LGBT mewn sefyllfa gynaliadwy. Rydym hefyd am weithio gyda mathau eraill o sefydliadau, fel sefydliadau academaidd, i sicrhau bod gennym fynediad at yr ymchwil a'r dystiolaeth orau bosibl.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud

17. **Byddwn yn sicrhau bod £4.5 miliwn ar gael i gyflawni ymrwymiadau yn y cynllun gweithredu hwn a phrosiectau eraill, trwy 'Gronfa Weithredu LGBT'.** Bydd y cyllido yn parhau hyd Fawrth 2020 i ddechrau. Bydd peth o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i gyflawni prosiectau yn y llywodraeth. Bydd y gweddill ar gael i sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gyflawni prosiectau i gefnogi pobl LGBT. Bydd Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth yn rheoli'r cyllid, ac yn penderfynu sut y bydd yr arian yn cael ei ddyrannu i brosiectau. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhyddhau yn fuan.

18. **Rydym yn bwriadu sicrhau cyllid ychwanegol ar ôl Mawrth 2020.** Bydd Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth yn gweithio gydag adrannau eraill a sefydliadau sector LGBT i adeiladu dadl fusnes ar gyfer rhagor o fuddsoddi mewn cynlluniau i wella deilliannau i bobl LGBT.

19. **Byddwn hefyd yn darparu cefnogaeth i elusennau a sefydliadau bach LGBT sy'n ceisio amrywio eu dulliau cyllido fel rhan o'r pecyn hwn.** Bydd hyn yn canolbwyntio ar wella'r sgiliau sydd gan sefydliadau bach i'w galluogi i gefnogi eu defnyddwyr yn well.

# Iechyd

20. **Gall eich cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rywedd gael effaith sylweddol ar eich iechyd a'ch lles corfforol, meddyliol a rhywiol.** Dengys y dystiolaeth sy'n bodoli bod canlyniadau iechyd yn gyffredinol yn waeth i bobl LGBT nag i weddill y boblogaeth, a bod pobl LGBT yn teimlo nad yw eu hanghenion penodol yn cael eu hystyried wrth ofalu amdanynt[2].

21. **Holodd yr arolwg cenedlaethol LGBT gwestiynau am brofiadau pobl o ofal iechyd cyhoeddus yn y 12 mis cyn yr arolwg.** Gofynnwyd cwestiynau am ddefnydd pobl o wasanaethau iechyd corfforol, meddyliol a rhywiol, a gwasanaethau hunaniaeth rhywedd. Fe wnaethom holi hefyd a oeddynt wedi datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd i staff gofal iechyd, a sut yr oeddynt yn teimlo bod hyn wedi effeithio ar y gofal a gawsant.

22. **Er bod llawer o ymatebwyr i'r arolwg wedi dweud eu bod wedi cael profiad positif yn defnyddio gofal iechyd, yn amlwg, mae mwy i'w wneud.** Dangosodd ein harolwg bod nifer fawr o ymatebwyr wedi cael anhawster yn defnyddio gwasanaethau gofal iechyd ac yn arbennig clinigau hunaniaeth rhywedd. Dangosodd hefyd bod llawer o ymatebwyr wedi profi holi a chwilfrydedd anaddas gan staff gofal iechyd, a bod rhai ymatebwyr yn teimlo bod eu hanghenion penodol yn cael eu hanwybyddu neu nad oeddynt wedi eu hystyried wrth iddynt ddefnyddio gofal iechyd. Mae rhai o'r canfyddiadau pwysicaf yn cynnwys:

    a. roedd o leiaf 16% o'r ymatebwyr i'r arolwg oedd wedi defnyddio neu geisio defnyddio gwasanaethau iechyd cyhoeddus wedi cael profiad negyddol oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, ac roedd o leiaf 38% wedi cael profiad negyddol oherwydd eu hunaniaeth rhywedd

    b. dywedodd 51% o'r ymatebwyr i'r arolwg a ddefnyddiodd neu a geisiodd ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eu bod wedi gorfod aros yn rhy hir, roedd 27% yn bryderus, yn boenus neu â chywilydd mynd a dywedodd 16% nad oedd eu meddyg teulu yn gefnogol.

    c. Dywedodd 80% o ymatebwyr traws a ddefnyddiodd neu a geisiodd ddefnyddio clinigau hunaniaeth rhywedd nad oedd yn hawdd, gyda rhestrau aros hir yn rhwystr mwyaf cyffredin.

23. **Byddwn yn sicrhau bod anghenion pobl LGBT yn ganolog i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.** Rydym am i bobl LGBT gael gofal iechyd yn rhwydd pan fydd arnynt fwyaf o'i angen, a theimlo yn gyfforddus yn datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd fel eu bod yn cael y gofal gorau posibl.

---

[2] NIESR (2016), 'Inequality among lesbian, gay bisexual and transgender groups in the UK July 2016'

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud

24. **Byddwn yn penodi Cynghorydd Cenedlaethol i arwain gwelliannau i ofal iechyd LGBT.** Bydd y Cynghorydd Cenedlaethol yn canolbwyntio ar leihau'r anghydraddoldebau iechyd y mae pobl LGBT yn eu hwynebu, ac yn cynghori ar ffyrdd i wella'r gofal y mae pobl LGBT yn ei gael wrth ddefnyddio'r GIG a gwasanaethau iechyd cyhoeddus. Byddant yn gweithio ar draws y GIG i sicrhau bod anghenion pobl LGBT yn cael eu hystyried trwy'r system iechyd gyfan.

25. **Bydd y Cynghorydd Cenedlaethol yn gweithio i wella ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol gofal iechyd o faterion LGBT fel eu bod yn gallu cynnig gwell gofal cleifion.** Bydd y Cynghorydd Cenedlaethol yn gweithio gyda sefydliadau statudol perthnasol a chymdeithasau proffesiynol i ymwreiddio materion LGBT yn y gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol.

26. **Byddwn yn gwella'r ffordd y mae gwasanaethau hunaniaeth rhywedd yn gweithio i oedolion trawsryweddol.** Yn 2019 bydd NHS England yn penderfynu ar ffurf gwasanaethau hunaniaeth rhywedd oedolion yn Lloegr yn y dyfodol, a byddant yn ceisio sefydlu model gofal mwy modern sy'n cyflawni canlyniadau o safon uchel lle gellir defnyddio gallu clinigol yn fwy hyblyg. Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn cynhyrchu cyngor am y Ddeddf Cydnabod Rhywedd i feddygfeydd meddygon teulu a chlinigau hunaniaeth rhywedd.

27. **Byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o effeithiau newid rhywedd ar blant ac oedolion ifanc.** Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn casglu tystiolaeth am y materion a wynebir gan bobl a bennwyd yn fenywaidd wrth eu geni sy'n trawsnewid yn eu glasoed.

28. **Byddwn yn gweithredu i wella gofal iechyd meddwl i bobl LGBT.** Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth ar y cyd yn datblygu cynllun fydd yn canolbwyntio ar leihau hunanladdiadau ymhlith y boblogaeth LGBT. Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn sicrhau bod anghenion pobl LGBT yn cael eu trin yn y Strategaeth Atal Hunanladdiadau sydd wedi ei diweddaru, a bydd y fframwaith cymhwysedd atal hunanladdiad newydd gan Health Education England yn trin grwpiau risg uchel gan gynnwys pobl LGBT.

29. **Byddwn yn gwella gwasanaethau ffrwythlondeb i bobl LGBT.** Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn diwygio deddfwriaeth benthyg croth fel bod pobl sengl (gan gynnwys unigolion LGBT) yn gallu dod yn rhieni cyfreithlon ar ôl trefniant benthyg croth.

30. **Byddwn yn sicrhau bod anghenion pobl LGBT yn cael eu hystyried wrth reoleiddio ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.** Bydd y Comisiwn Ansawdd Gofal yn parhau i wella sut y mae'n arolygu profiad pobl LGBT mewn wardiau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl i oedolion, a byddwn yn dechrau archwilio yr holl glinigau hunaniaeth rhywedd ar sail risg. Bydd y Comisiwn

Ansawdd Gofal yn datblygu cyfarwyddyd ar gyfer arolygwyr ansawdd gofal ar y llwybr gofal iechyd i bobl sy’n trawsnewid eu rhywedd, ac ymwreiddio materion cydraddoldeb LGBT yn y dull a ddefnyddir gan arolygwyr.

31. **Byddwn yn cefnogi gwell monitro ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd mewn gwasanaethau gofal iechyd i alluogi gwell gofal i gleifion.** Bydd Swyddfa Gydraddoldebau’r Llywodraeth yn datblygu cyfarwyddyd arfer gorau ar gyfer monitro a gwneud hyn ar gael yn agored i’r sector cyhoeddus, a bydd y Cynghorydd Cenedlaethol yn gweithio i sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn deall manteision gofyn i gleifion am eu cyfeiriadedd rhywiol a’u hunaniaeth rhywedd. Bydd y Comisiwn Ansawdd Gofal yn edrych ar sut y gallwn hyrwyddo safon monitro cyfeiriadedd rhywiol gwirfoddol NHS England i bobl sy’n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

32. **Byddwn yn gweithio i daclo pwysedd delwedd corff y mae pobl ifanc LGBT yn eu hwynebu.** Bydd Swyddfa Cydraddoldebau’r Llywodraeth yn ystyried y sialensiau penodol a wynebir gan bobl LGBT fel rhan o’n gwaith ehangach i adeiladu’r sail tystiolaeth ar achosion ac effeithiau anfodlonrwydd ar gorff.

33. **Byddwn yn parhau i adolygu’r cyfnod gohirio rhoi gwaed i ddynion sy’n cael rhyw â dynion.** Bydd Gwaed a Thrawsblannu’r GIG yn archwilio ffyrdd y gall dull mwy personol o asesu risg gael ei gyflwyno, er mwyn caniatáu i ragor o bobl roi gwaed heb effeithio ar ddiogelwch gwaed; ar hyn o bryd ychydig iawn o ddata sydd ar gael am ffyrdd effeithiol o gynnal asesiadau risg o’r fath. Gall y pwyso a mesur, casglu tystiolaeth a phrofi cychwynnol gymryd hyd at ddwy flynedd i’w cwblhau.

34. **Rydym yn ymroddedig i daclo trosglwyddo HIV, AIDS a marwolaethau yn gysylltiedig â HIV.** Fel rhan o hyn, rydym ar hyn o bryd yn ariannu cynllun treialu 3 blynedd gyda 10,000 o bobl i bennu beth yw’r ffordd orau o gyflawni ‘PrEP’. Bydd NHS England yn ystyried effaith cynyddu’r cynllun treialu PrEP ymhellach.

35. **Byddwn yn gweithredu i wella’r gefnogaeth i bobl LGBT sydd ag anableddau dysgu.** Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn adolygu, casglu a rhannu’r cyfarwyddyd a’r cyngor arfer gorau cyfredol parthed materion LGBT ac anabledd dysgu; a bydd hefyd yn sicrhau bod gofynion hyfforddiant ar gyfer staff cefnogi ac eiriolwyr sy’n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu yn cynnwys cyngor am bobl LGBT.

# Addysg

36. **Dylai'r holl bobl LGBT deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn ddiogel yn yr ysgol, coleg a'r brifysgol fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial yn llawn.** Mae'r dystiolaeth sy'n bodoli yn awgrymu y gall bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd gael effaith anghymesur ar bobl ifanc LGBT[3]. Mae'n dangos hefyd bod y digwyddiadau bwlio yn lleihau[4], er bod unrhyw faint o fwlio ar sail rhagfarn yn annerbyniol ac rydym wedi ymrwymo i ymdrin ag ef. Rydym yn ymroddedig hefyd i sicrhau bod athrawon LGBT a phobl sy'n gweithio ym myd addysg yn rhydd i fod yn nhw eu hunain yn y gwaith.

37. **Gofynnodd yr arolwg cenedlaethol LGBT i'r ymatebwyr am eu profiadau ym myd addysg.** Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a drafodwyd cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd yn ystod eu haddysg, a pha mor dda yr oeddent yn teimlo bod hyn wedi eu paratoi ar gyfer eu bywyd. Os oedd yr ymatebwyr mewn addysg yn y flwyddyn academaidd cyn yr arolwg, fe wnaethom hefyd ofyn pa mor agored oeddynt wedi bod am eu statws LGBT ac unrhyw ddigwyddiadau yr oeddent wedi eu profi.

38. **Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr wedi profi digwyddiad negyddol yn ystod eu hamser mewn addysg.** Canfu ein harolwg bod llawer o bobl wedi cael eu hamlygu fel rhai LGBT heb eu cydsyniad, neu wedi dioddef aflonyddu ar lafar mewn addysg. Yn ychwanegol, ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn teimlo bod eu haddysg wedi eu paratoi ar gyfer bywyd fel person LGBT. Rhai o'r canfyddiadau pwysicaf oedd:

    a. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, roedd 21% o'r ymatebwyr mewn addysg wedi cael ymateb negyddol yn cynnwys rhywun yn datgelu eu hunaniaeth LGBT heb eu caniatâd, ac 19% yn cynnwys aflonyddu geiriol, sarhad neu sylwadau niweidiol eraill.

    b. Roedd 21% o'r ymatebwyr yn cofio trafod cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd neu'r ddau yn yr ysgol, gydag ymatebwyr iau yn llawer mwy tebygol o wneud hynny nag ymatebwyr hŷn. Ond, o'r rhai oedd yn cofio, dim ond 9% oedd yn teimlo bod hyn wedi eu paratoi yn dda ar gyfer eu bywyd wedyn fel pobl LGBT, ac nid oedd yn amrywio yn fawr yn ôl oedran.

    c. Ni roddwyd adroddiad am 83% o'r digwyddiadau mwyaf difrifol a brofwyd gan ymatebwyr mewn sefydliadau addysgol yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, yn bennaf oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn rhy fach, ddim yn ddigon difrifol neu eu bod yn 'digwydd o hyd'.

[3] NIESR (2016), 'Inequality among lesbian, gay bisexual and transgender groups in the UK July 2016'
[4] Stonewall (2017), 'School Report'

39. **Byddwn yn gweithredu fel bod ein system addysg yn cefnogi pob plentyn neu berson ifanc LGBT.** Rydym am i blant a phobl ifanc LGBT deimlo bod eu haddysg yn berthnasol i'w hunaniaeth, a medru cymryd rhan lawn yn eu haddysg heb fod arnynt ofn bwlio neu aflonyddu. Rydym hefyd eisiau gweld athrawon LGBT yn cael eu cefnogi i fod yn fodelau rôl i'r holl blant a phobl ifanc.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud

40. **Byddwn yn parhau i ymdrin â bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd mewn ysgolion a'r system addysgol ehangach.** Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn cwblhau ei rhaglen gwrth fwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd. Bydd y rhaglen £3 miliwn yn cyrraedd mwy na 1,200 o ysgolion yn Lloegr erbyn Mawrth 2019. O Fawrth 2019 hyd Fawrth 2020, bydd Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth yn darparu rhagor o gyllid ar gyfer ymyraethau mewn ysgolion, ac yn ystyried prosiectau eraill i ymdrin â bwlio mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch. Bydd yr Adran Addysg yn gweithio gyda Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth i ddeall beth yw'r ffordd orau i gefnogi ysgolion i ymdrin â bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd a sut i barhau'r rhaglen hon o waith mewn modd cynaliadwy trwy'r cwricwlwm a pholisïau ysgolion yn y tymor canolig a hir. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn adolygu a diweddaru eu Pecyn Troseddau Casineb LGBT Ysgolion mewn partneriaeth gyda phobl ifanc LGBT a gweithwyr proffesiynol bwlio ar sail hunaniaeth i daclo bwlio mewn ysgolion.

41. **Byddwn yn diweddaru cyfarwyddyd Rhyw a Pherthnasau i gefnogi diwygiadau'r Llywodraeth i'r pwnc hwn.** Fel yr ydym wedi cyhoeddi yn barod, bydd yr Adran Addysg yn diweddaru'r cyfarwyddyd statudol ar Addysg Perthnasau mewn ysgolion cynradd, ac Addysg Perthnasau a Rhyw mewn ysgolion uwchradd. Bydd y diweddariadau yma yn sicrhau bod y cyfarwyddyd yn cefnogi addysgu sy'n addas i'r oedran ac yn berthnasol i'r holl ddisgyblion, beth bynnag yw eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd wrth iddynt ddatblygu.

42. **Byddwn yn sicrhau bod gan ysgolion fynediad at y cyfarwyddyd y mae arnynt ei angen i gefnogi disgyblion LGBT.** Bydd yr Adran Addysg yn cyhoeddi diweddariad i'w chyfarwyddyd i ysgolion am sut i weithredu Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn ychwanegol, bydd Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i gyhoeddi cyfarwyddyd cynhwysfawr i ysgolion ar sut i gefnogi disgyblion traws.

43. **Byddwn yn cefnogi athrawon LGBT i fod yn nhw eu hunain yn y gwaith a gwella'r amrywiaeth o fewn y proffesiwn addysgu.** Mae'r Adran Addysg yn buddsoddi £2 miliwn i sefydlu canolfannau rhanbarthol i gefnogi athrawon o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, gan gynnwys yr athrawon hynny sy'n LGBT, i symud ymlaen i arwain. Mae'r Adran Addysg hefyd eisoes wedi cefnogi lansiad 'LGBTEd' – rhwydwaith i athrawon LGBT a'u cynghreiriaid – a bydd yn

parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar wneud y proffesiwn addysgu yn fwy cynhwysol o ran LGBT.

44. **Byddwn yn sicrhau bod cefnogaeth ar gael i fyfyrwyr LGBT sy'n ddioddefwyr troseddau casineb ac aflonyddu ar-lein.** Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i'r Swyddfa dros Fyfyrwyr i gymryd camau i sicrhau bod darparwyr addysg uwch yn fannau lle mae goddefgarwch i'r holl fyfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda darparwyr addysg uwch, er enghraifft, trwy gefnogi gwaith i sicrhau bod myfyrwyr sydd wedi dioddef digwyddiadau homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd â'r gefnogaeth y mae arnynt ei hangen yn ei lle, trwy fynediad at staff wedi eu hyfforddi'n briodol a chyfeirio at sefydliadau arbenigol lleol. Bydd y Swyddfa dros Fyfyrwyr yn ymchwilio ac yn ymdrin â bylchau o ran cyfranogiad, profiad, diogelu a llwyddiant i fyfyrwyr LGBT mewn addysg uwch.

## Diogelwch

45. **Dylai pawb allu byw eu bywydau yn ddiogel a theimlo yn ddiogel gartref, allan ar y stryd, ac ar-lein.** Troseddau casineb yn erbyn pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol sydd ail yn y rhestr o droseddau casineb mwyaf amlwg yn y Deyrnas Unedig, ac er bod cynnydd yn yr adroddiadau sy'n cael eu rhoi[5], mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl LGBT yn gyndyn o roi adroddiadau am ddigwyddiadau y maent yn eu profi[6].

46. **Gofynnodd yr arolwg cenedlaethol LGBT gwestiynau am ba mor agored oedd yr ymatebwyr am eu statws LGBT ac unrhyw ddigwyddiadau yr oeddent wedi eu profi oedd yn cael eu hysgogi gan ragfarn tuag atynt fel person LGBT.** Fe wnaethom ofyn i'r ymatebwyr a oeddent wedi profi unrhyw ddigwyddiadau gartref ac a oeddent wedi profi digwyddiadau tu allan i'r cartref. Fe wnaethom hefyd ofyn a oedd yr ymatebwyr wedi cael cynnig neu wedi mynd trwy 'therapi tröedigaeth' fel mae'n cael ei alw i geisio eu 'hiachau' o fod yn LGBT.

47. **Dywedodd llawer o ymatebwyr eu bod wedi profi digwyddiad a gyflawnwyd gan rywun nad oeddent yn byw gydag o neu hi, ac ni wnaeth y mwyafrif roi adroddiad am hynny i unrhyw un.** Dangosodd ein harolwg, er gwaethaf y cynnydd a wnaed ar hawliau LGBT yn y Deyrnas Unedig, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn osgoi bod yn agored am eu hunaniaeth LGBT yn gyhoeddus oherwydd bod arnynt ofn ymateb negyddol gan eraill. Rhai o'r canfyddiadau pwysicaf oedd bod:

    a. 40% o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi profi o leiaf un digwyddiad negyddol yn ymwneud â rhywun nad oeddent yn byw gydag o neu hi, a 29% wedi profi o leiaf un digwyddiad negyddol yn ymwneud â rhywun yr oeddent yn byw gydag o neu hi oherwydd eu statws LGBT yn y 12 mis cyn yr arolwg

    b. Mwy na 91% o'r ymatebwyr wedi dweud nad oeddent wedi rhoi adroddiad am y digwyddiad mwyaf difrifol yr oeddent wedi ei brofi yn y 12 mis cyn yr arolwg

    c. 2% o ymatebwyr wedi mynd trwy therapi tröedigaeth mewn ymgais i'w 'iacháu' o fod yn LGBT, ac roedd 5% arall wedi cael ei gynnig

48. **Byddwn yn gweithredu fel bod pobl LGBT yn teimlo yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain ac yn eu cymunedau.** Rydym am i bobl LGBT deimlo yn gyfforddus yn rhoi adroddiad am ddigwyddiadau y maent yn eu profi, ac nid

[5] Y Swyddfa Gartref. Hydref 2017 "Hate Crime, England and Wales, 2016/17."
[6] NIESR (2016), 'Inequality among lesbian, gay bisexual and transgender groups in the UK July 2016'

ydym yn barod i sefyll yn segur wrth i arferion niweidiol fel therapi tröedigaeth ddigwydd yn ein gwlad.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud

49. **Byddwn yn dwyn cynigion ymlaen i ddod â'r arfer o roi therapi tröedigaeth i ben yn y Deyrnas Unedig.** Nid yw'r gweithgareddau hyn yn iawn, ac nid ydym yn barod i adael iddynt barhau. Dan arweiniad Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth, byddwn yn ystyried yr holl ddewisiadau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol yn llawn i wahardd hybu, cynnig neu gynnal therapi tröedigaeth. Ein bwriad yw diogelu pobl sy'n fregus i niwed neu drais, boed hynny'n digwydd mewn cyd-destun meddygol, masnachol neu ar sail ffydd. Nid ydym yn ceisio atal pobl LGBT rhag chwilio am gefnogaeth feddygol ddilys neu gefnogaeth ysbrydol gaen eu harweinydd ffydd wrth archwilio eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd.

50. **Byddwn yn gwella ymateb yr heddlu i droseddau casineb ac yn codi ymwybyddiaeth o asiantaethau cefnogi lleol i ddioddefwyr LGBT.** Bydd y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn adnewyddu'r Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb 2016 yn hwyrach eleni. Bydd y Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb wedi ei adnewyddu yn cynnwys camau i wella ymwybyddiaeth a sgiliau swyddogion yr heddlu i ymateb i anghenion dioddefwyr troseddau casineb – gan gynnwys dioddefwyr LGBT. Bydd y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol hefyd yn ariannu pecyn hyfforddi i'r diben fydd ar gael i bawb sy'n ymdrin â galwadau yn yr heddlu i helpu i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu dynodi yn gywir a'u cefnogi ar y cyswllt cyntaf allweddol hwn. Bydd y cynllun wedi ei adnewyddu hefyd yn nodi camau i gefnogi asiantaethau lleol, yn arbennig yr heddlu, i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i gyfeirio dioddefwyr troseddau casineb at y gwasanaethau cefnogi-priodol. Bydd y cynllun hwn wedi ei adnewyddu yn ceisio cefnogi partneriaid i adolygu ac asesu'r gwasanaethau lleol yn eu hardal a'r ymwybyddiaeth ohonynt. Yr haf hwn, bydd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi yn cyhoeddi canfyddiadau ei harolwg o effeithiolrwydd lluoedd heddlu Cymru a Lloegr wrth ddynodi, cofnodi, ac ymateb i adroddiadau o droseddau casineb. Mae'r Llywodraeth hefyd yn edrych ar yr ymatebion i'r arolwg Cenedlaethol LGBT am ddeddfwriaeth troseddau casineb a bydd yn ystyried hyn a thystiolaeth arall fel rhan o'r bwriad i adnewyddu'r Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb.

51. **Byddwn yn gwella cofnodi a rhoi adroddiadau i ddioddefwyr troseddau casineb a cham-drin domestig.** Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio gyda rhanddeiliaid LGBT a'r wasg arbenigol i godi ymwybyddiaeth o achosion sydd wedi eu herlyn yn llwyddiannus yn ymwneud â dioddefwyr LGBT i gynyddu hyder wrth roi adroddiadau am droseddau. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio gyda phartneriaid i wella'r cofnodi a'r monitro ar ddata cydraddoldeb i ddioddefwyr cam-drin domestig, treisio a throseddau casineb LGBT.

52. **Byddwn yn ymdrin â cham-drin domestig ar bobl LGBT gydag anghenion lluosog a chymhleth.** Mae gan y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ymrwymiad yn y Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched i wella gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig sydd ag anghenion cymhleth, a all gynnwys salwch meddwl a cham-drin sylweddau, ac mae'n gweithio ar draws y llywodraeth i sicrhau bod anghenion dioddefwyr LGBT yn cael eu cynrychioli. Bydd y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol hefyd yn cyhoeddi cyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig ar draws Lloegr, gan gynnwys llochesi, mor gynnar â phosibl yn y flwyddyn ariannol hon. Yn ychwanegol, mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o gyllido a chomisiynu gwasanaethau cam-drin domestig ar draws Lloegr. Bydd yr adolygiad yn seiliedig ar archwiliad, a fydd yn rhoi darlun i ni o'r ddarpariaeth ar draws Lloegr, gan gynnwys cefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig LGBT, gan alluogi'r llywodraeth i asesu pa effaith y mae gwasanaethau yn eu cael ac i ddynodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.

53. **Rydym wedi casglu tystiolaeth am y rhwystrau a wynebir gan ddioddefwyr cam-drin domestig LGBT wrth chwilio am gefnogaeth a byddwn yn ystyried sut y byddwn yn ymdrin â nhw fel rhan o waith ehangach y Llywodraeth ar Gam-drin Domestig.** Roedd ymgynghoriad y Llywodraeth ar 'Drawsnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig' yn ceisio barn ar ba gamau y gellir eu symud ymlaen trwy ein Mesur Cam-drin Domestig arloesol a'r pecyn anneddfwriaethol i'w gefnogi. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar yr hyn y gall llywodraeth ei wneud i gefnogi dioddefwyr sy'n wynebu rhwystrau lluosog i gael cefnogaeth yn well, gan gynnwys dioddefwyr trais domestig LGBT. Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio gyda Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth i sicrhau bod y pecyn anneddfwriaethol yn ystyried anghenion dioddefwyr LGBT yn llawn.

54. **Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau cefnogi i ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol a chamdriniaeth LGBT.** Bydd NHS England yn gweithio gyda'r heddlu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir gan Ganolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol i ddioddefwyr a goroeswyr LGBT sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol sy'n eu hatal rhag rhoi adroddiadau am ymosodiadau a cham-drin rhywiol. Yn Ebrill 2018, cyhoeddodd NHS England y 'Strategic Direction for Sexual Assault and Abuse Services – Lifelong care for Victims and Survivors: 2018-2023'. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut y bydd NHS England ac asiantaethau yn gwella'r llwybr gofal cyfan i ddioddefwyr a goroeswyr ymosodiadau a cham-drin rhywiol ar hyd eu hoes. Mae NHS England hefyd wedi ymrwymo i gael cynrychiolaeth LGBT ar y Grŵp Cyfranogiad Cleifion Cenedlaethol ar gyfer Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.

55. **Byddwn yn gweithio i ddeall y rhesymau am ddigartrefedd LGBT a sut y gallwn gefnogi anghenion pobl LGBT ddigartref yn well.** O Ebrill 2018, mae awdurdodau lleol wedi dechrau casglu data ar lefel achosion, trwy system ddata Casglu Gwybodaeth ar Lefel Achos Digartrefedd, am gyfeiriadedd

rhywiol a hunaniaeth rhywedd pobl ddigartref. Byddwn yn dadansoddi'r data hwn er mwyn deall natur a graddfa'r broblem ddigartrefedd LGBT yn well, yn ogystal â pha mor dda y mae staff rheng flaen yn cefnogi unigolion. Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cynnal ymchwil ansoddol i brofiadau pobl LGBT ddigartref yn ogystal â chynnal archwiliad o'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n bodoli. Cynhyrchir cyfarwyddyd anstatudol i awdurdodau lleol, gan godi ymwybyddiaeth o anghenion pobl ddigartref LGBT a'r ffyrdd i'w cefnogi yn well. Bydd y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn sicrhau bod anghenion pobl LGBT ddigartref yn cael eu hadlewyrchu ar draws strategaeth cysgu allan y Llywodraeth sy'n cael ei rhyddhau yn fuan.

56. **Byddwn yn gwneud yn siŵr bod dioddefwyr troseddau yn parhau i gael mynediad at wasanaethau cefnogi, i'w helpu i ymdopi, a chyn belled ag y gallant, gwella o effeithiau troseddau.** Eleni mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi tua £96 miliwn i gefnogi dioddefwyr troseddau; bydd tua £68 miliwn o hwn yn cael ei ddyrannu i 42 o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i gomisiynu neu ddarparu gwasanaethau cefnogi lleol i ddioddefwyr troseddau, gan gynnwys dioddefwyr LGBT. Yn y blynyddoedd blaenorol, gwariodd rhai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu cyllid grant ar brosiectau penodol ar gyfer dioddefwyr LGBT. Yn 2018 i 2019, bydd darparwyr penodol i LGBT yn parhau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cynghori, eiriolaeth a chyfeillio i ddioddefwyr troseddau casineb, trais rhywiol a thrais domestig LGBT.

57. **Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod anghenion yr holl hawlwyr LGBT yn y broses lloches, boed eu hawliad wedi ei seilio ar y sail hon neu beidio.** Er nad oedd yr arolwg cenedlaethol LGBT yn gofyn cwestiynau am y broses o geisio lloches, rydym yn parhau yn ymroddedig i ddiogelu'r holl hawlwyr y gwelir eu bod mewn risg o gael eu herlid neu o gael niwed difrifol yn eu gwlad wreiddiol oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd. Bydd cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref ar gyfer gweithwyr achos am brosesu hawliadau lloches ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn cael eu hadolygu yn fuan. Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn cyhoeddi cyfarwyddyd ar hawliadau lloches ar sail hunaniaeth rhywedd a'i fynegi yn yr haf. Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ddata am hawliadau lloches a wnaed ar sail cyfeiriadedd rhywiol am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2017 ac mae wedi ymrwymo i'w ail gyhoeddi yn flynyddol. Bydd y Swyddfa Gartref yn parhau i adolygu hyfforddi staff y stad gaethiwo a gofal iechyd mewnfudo i sicrhau bod anghenion penodol y rhai LGBT sy'n cael eu cadw yn cael eu bodloni yn gyson.

58. **Byddwn yn sicrhau mai'r Deyrnas Unedig yw'r lle mwyaf diogel yn y byd i'r holl ddefnyddwyr, gan gynnwys pobl LGBT, i fod ar-lein.** Roedd ymateb y Llywodraeth i'r Strategaeth Diogelwch Rhyngrwyd, a gyhoeddwyd ym Mai 2018, yn nodi manylion ein cod ymarfer newydd gyda chyfarwyddyd ar gyfer darparwyr cyfryngau cymdeithasol. Bydd y cod yn helpu i sicrhau bod prosesau rhoi adroddiadau clir a thryloyw yn eu lle i ddefnyddwyr roi adroddiad am sarhad sy'n targedu pobl LGBT. Rydym hefyd yn cyflwyno rhoi adroddiadau

tryloyw i ddarparwyr cyfryngau cymdeithasol. Bydd yr adroddiadau hyn yn ein helpu i ddeall faint o gam-drin yn gysylltiedig â LGBT y rhoddir adroddiad amdano a sut y gall darparwyr ymdrin â'r adroddiadau hyn. Roedd ymateb y Llywodraeth hefyd yn cyhoeddi y bydd yr Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r Swyddfa Gartref ar y cyd yn gweithio ar Bapur Gwyn, i'w gyhoeddi yn hwyrach eleni. Bydd y Papur Gwyn yn nodi ein cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol a fydd yn ymdrin â'r ystod lawn o niweidiau ar-lein, gan gynnwys cynnwys niweidiol ac anghyfreithlon. Mae'r meysydd posibl lle bydd y Llywodraeth yn deddfu yn cynnwys y cod ymarfer cyfryngau cymdeithasol, adroddiadau am dryloywder a hysbysebu ar-lein.

59. **Byddwn yn sicrhau bod gan bobl ifanc LGBT fynediad at ymyraethau diogelwch ar-lein addysgol sy'n ymdrin â'u hanghenion ac yn seiliedig ar eu profiadau.** Dangosodd adroddiad yr Asiantaeth Droseddau Genedlaethol 'Digital Romance' bod cyfran uwch o bobl ifanc LGBT yn cyfarfod eu partneriaid ar-lein. Canfu hefyd bod nifer sylweddol uwch o bobl ifanc hoyw a lesbiaidd wedi cyfarfod gyda chysylltiad ar-lein nad oedd yr hyn yr oedd wedi dweud ei fod/ei bod. Bydd yr Asiantaethau Droseddau Genedlaethol yn datblygu ymyraethau addysg effeithiol a phriodol i sicrhau y gall pobl ifanc LGBT fod yn gyfranogwyr llawn, cyfartal mewn gweithgareddau a chymunedau ar-lein, a chael budd o botensial llawn technolegau digidol. Bydd hyn yn cynnwys dynodi meysydd ymyrryd i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i gadw'n ddiogel ar-lein. Byddant yn gweithio gyda phobl ifanc LGBT, gweithwyr proffesiynol a rhieni i ddatblygu'r ymyraethau a'r adnoddau.

60. **Byddwn yn sicrhau bod carcharorion trawsryweddol yn cael eu trin yn deg, yn briodol, yn gyfreithlon a'u hawliau yn cael eu parchu.** Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn parhau i weithio gyda'i fwrdd cynghori i adolygu ei Gyfarwyddiadau Asiantaeth am ofalu a rheoli troseddwyr trawsryweddol. Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn comisiynu ymchwil ac yn gweithio ar y cyd gyda sefydliadau partner i ddeall y boblogaeth drawsryweddol yn y carchardai yn well a'r rhai sy'n cael dedfrydau yn y gymuned, a fydd yn sail i'n gwaith parhaus. Byddwn yn ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad 'Inside Gender Identity' i anghenion iechyd a gofal cymdeithasol troseddwyr trawsryweddol.

# Y Gweithle

61. **Dylai pobl LGBT fedru bod yn nhw eu hunain yn y gweithle, fel eu bod yn gallu gwneud eu gwaith gorau a llwyddo mewn bywyd.** Mae'r dystiolaeth sy'n bodoli yn awgrymu bod gwahaniaethu, aflonyddu a bwlio sy'n effeithio yn anghymesur ar bobl LGBT mewn agweddau amrywiol o'u bywydau yn parhau yn broblem yn y gweithle[7]. Mae hyn yn wir i'r rhai gyda chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol a hyd yn oed yn fwy felly i'r rhai gyda hunaniaeth rhywedd leiafrifol.

62. **Gofynnodd yr arolwg cenedlaethol LGBT gwestiynau am brofiadau pobl o fod yn LGBT yn y gweithle.** Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent mewn gwaith cyflogedig yn y 12 mis cyn yr arolwg, a oeddent yn agored am fod yn LGBT yn y gwaith, ac a oeddent wedi profi gwahaniaethu yn y gweithle.

63. **Roedd gan y mwyafrif o ymatebwyr ymateb cadarnhaol neu niwtral pan oeddent yn agored am fod yn LGBT yn y gwaith, ond dywedodd rhai eu bod wedi profi ymateb negyddol am eu bod yn LGBT.** Dangosodd ein harolwg bod gormod o bobl LGBT yn teimlo na allant fod yn nhw eu hunain yn y gwaith a bod y mwyafrif o ddigwyddiadau yn y gweithle yn mynd heb roi adroddiad amdanynt. Rhai o'r canfyddiadau pwysicaf oedd:

    a. 23% o'r ymatebwyr i'r arolwg oedd wedi gweithio yn y 12 mis cyn yr arolwg oedd wedi profi ymateb negyddol neu gymysg gan eraill yn y gweithle oherwydd eu bod yn LGBT neu bod amgyffrediad eu bod yn LGBT

    b. 11% o'r rhai mewn gwaith wedi profi ymateb negyddol yn y 12 mis cyn yr arolwg oherwydd bod rhywun yn datgelu eu bod yn LGBT heb ganiatâd, 11% oherwydd sylwadau neu ymddygiad anaddas, a 9% oherwydd aflonyddu geiriol, sarhad neu sylwadau eraill a fwriadwyd i'w brifo

    c. 77% o'r ymatebwyr oedd wedi profi digwyddiad negyddol yn y gwaith yn y 12 mis blaenorol yn dweud na roddwyd adroddiad am y digwyddiad mwyaf difrifol, yn bennaf am eu bod yn meddwl na fyddai'n werth iddynt wneud hynny, neu na fyddai dim yn digwydd na newid

64. **Rydym am weld camau positif yn cael eu cymryd ar draws sectorau i sicrhau mai'r Deyrnas Unedig yw'r lle gorau i weithio fel person LGBT.** Rydym yn gwybod bod pobl sy'n gweithio mewn amgylcheddau cynhwysol yn fwy tebygol o gyflawni eu potensial; rydym am i bob gweithle fod yn weithle cynhwysol.

[7] NIESR (2016), 'Inequality among lesbian, gay bisexual and transgender groups in the UK July 2016'

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud

65. **Byddwn yn darparu deunyddiau hyfforddi am ddim i gyflogwyr i gefnogi cynhwysiant yn y gweithle.** Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn datblygu pecyn hyfforddiant i helpu cyflogwyr a gweithwyr i ymdrin â gwahaniaethu LGBT yn y gweithle. Bydd y pecyn ar gael i sefydliadau i'w addasu ganddynt ar gyfer eu hanghenion unigol.

66. **Byddwn yn parhau i weithredu ar aflonyddu rhywiol yn y gweithle.** Bydd y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu a Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth yn sicrhau bod aflonyddu LGBT yn cael ei gynnwys mewn polisïau a chyfarwyddyd aflonyddu rhywiol y byddant yn eu cyhoeddi.

67. **Byddwn yn trefnu gweithgor o gyflogwyr i ddeall profiadau staff LGBT mewn gwahanol sectorau.** Er bod cynnydd mawr wedi ei wneud ar gydraddoldeb LGBT yn y gwaith, nid yw pob sector o'r economi wedi gweld yr un cynnydd. Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn gweithio gyda chyflogwyr i ddatblygu ymyraethau wedi eu targedu i wella profiad pobl LGBT yn y gwaith.

68. **Bydd y Gwasanaeth Sifil yn parhau i fod yn fodel rôl o ran arfer gorau wrth sefydlu amgylcheddau gwaith sy'n gynhwysol i staff LGBT yn unol â Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth Sifil.** Byddwn yn parhau ein gwaith yn adolygu a chryfhau'r ffordd yr ydym yn taclo bwlio, aflonyddu a chamymddygiad yn y Gwasanaeth Sifil, gan weithredu ac adeiladu ar yr adolygiad a gynhaliwyd rhwng hydref 2017 a haf 2018.

# Hawliau a'r Gyfraith

69. **Mae gan y Deyrnas Unedig record falch o ddiogelu ac ymestyn hawliau LGBT gartref a thramor.** Rydym yn parhau i gael ein cydnabod yn un o'r gwledydd gorau yn Ewrop ar gyfer hawliau LGBT gan ILGA-Europe.

70. **Holodd yr arolwg cenedlaethol LGBT gwestiynau i bobl draws am y broses o gydnabod rhywedd yn gyfreithiol, a gwahodd ymatebion gan bobl anneuol a rhyngrywiol.** Mae'r cwestiynau wedi rhoi dealltwriaeth werthfawr o brofiadau pobl draws a rhyngrywiol. Rhai o'r canfyddiadau pwysicaf oedd:

    a. Roedd 81% o ddynion a menywod traws yn gwybod am y broses o ymgeisio am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd; ond, roedd y wybodaeth am yr union ofynion yn gymysg - er enghraifft, roedd 15% yn meddwl bod llawfeddygaeth yn ofynnol trwy gamgymeriad a 43% yn meddwl bod angen cyfweliad gyda Phanel Cydnabod Rhywedd

    b. y rhesymau a roddwyd amlaf gan ddynion a menywod traws am beidio ag ymgeisio am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd oedd nad oeddynt yn bodloni'r gofynion (44%), gweld y broses yn rhy fiwrocrataidd (38%), a'r broses yn rhy ddrud (34%)

    c. dim ond 7% o'r ymatebwyr oedd yn ymwybodol o'r Dystysgrif Cydnabod Rhywedd ond nad oedd ganddynt un a ddywedodd nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn cael un

    d. ymatebwyr rhyngrywiol oedd fwyaf tebygol o fod wedi bod yn aflwyddiannus wrth geisio defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl (13%) nag ymatebwyr nad oeddynt yn rhyngrywiol (8%), ac yn fwy tebygol o ddweud nad oedd eu defnyddio yn hawdd o gwbl (37%) mewn cymhariaeth ag ymatebwyr nad oeddynt yn rhyngrywiol (28%)

    e. Dywedodd 11% o ymatebwyr rhyngrywiol nad oedd defnyddio gwasanaethau iechyd rhywiol wedi bod yn rhwydd o gwbl, mewn cymhariaeth â 5% o ymatebwyr nad oeddynt yn rhyngrywiol; y prif reswm a roddwyd oedd eu bod yn bryderus, poenus neu â chywilydd am fynd (12%), wedi gorfod aros yn rhy hir (11%), neu nad oeddynt yn gallu mynd ar amser cyfleus (10%)

71. **Er gwaethaf y datblygiadau sylweddol a welwyd yn y Deyrnas Unedig wrth sicrhau cydraddoldeb i bobl LGBT dros y 50 mlynedd diwethaf, rydym yn gwybod bod mwy i'w wneud eto.** Rydym am sicrhau bod y gyfraith yn adlewyrchu gwir anghenion pobl LGBT. Rydym hefyd am sicrhau bod pobl LGBT yn gwybod am yr hawliau sydd ganddynt yn barod.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud

72. **Byddwn yn ymgynghori ar y ffordd orau i ddiwygio'r broses cydnabod rhywedd.** Y llynedd cyhoeddodd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth y bwriad i ymgynghori ar Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004 i weld sut y gellir gwneud y broses o gydnabod rhywedd yn gyfreithiol yn llai biwrocrataidd ac ymwthiol. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun gweithredu hwn, a byddwn yn defnyddio canlyniadau'r arolwg cenedlaethol LGBT a'r ymgynghoriad i gyflwyno cynigion ar gyfer diwygio'r gwasanaeth cyhoeddus hwn.

73. **Byddwn yn ystyried ffyrdd i'w gwneud yn haws i ddweud wrth y llywodraeth os byddwch wedi newid eich rhywedd.** Bydd Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth yn ymchwilio i weld a ellir dysgu oddi wrth y gwasanaeth 'Dweud Wrthym Unwaith' – sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i hysbysu adrannau'r llywodraeth am brofedigaethau – er mwyn i bobl trawsryweddol sy'n trawsnewid ac am ddiweddaru eu henwau a'u rhywedd ar draws nifer o adrannau, orfod gwneud hynny unwaith yn unig.

74. **Byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o broblemau sy'n wynebu pobl anneuol.** Bydd Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth yn lansio Galwad am Dystiolaeth ar y materion a wynebir gan bobl anneuol, gan adeiladu ar ganfyddiadau'r arolwg cenedlaethol LGBT.

75. **Byddwn hefyd yn gwella ein dealltwriaeth o'r problemau sy'n wynebu pobl rhyngrywiol.** Bydd Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth yn lansio Galwad am Dystiolaeth ar wahân i wella'r dystiolaeth yn ymwneud â phrofiadau pobl rhyngrywiol.

76. **Byddwn yn sicrhau bod pobl LGBT yn gallu cael mynediad at wybodaeth y mae arnynt ei hangen am eu hawliau yn rhwydd.** Bydd Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth yn adolygu'r cynnwys presennol ar GOV.UK a fwriadwyd ar gyfer pobl LGBT, a gwella'r cynnwys i sicrhau ei bod yn bodloni eu hanghenion yn llawn.

# Data a monitro

77. **Mae bod yn LGBT yn gwneud gwahaniaeth i'ch iechyd a'ch lles, eich tebygolrwydd o fod yn ddioddefwr rhai mathau o droseddau, a'ch addysg.** Dylunnir gwasanaethau cyhoeddus da gyda data, ond nid yw llawer o wasanaethau yn monitro cyfeiriadedd rhywiol na hunaniaeth rhywedd fel rhan o'r patrwm arferol. Nid yw'r rhannau hynny o'r llywodraeth sydd yn monitro'r nodweddion a ddiogelir yma yn gwneud hynny yn gyson. Gall monitro cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd helpu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall anghenion pobl LGBT yn well a darparu ar eu cyfer, yn ogystal â phobl nad ydynt yn LGBT. Mae data gwell yn arwain at wasanaethau gwell.

78. **Gofynnodd yr arolwg cenedlaethol LGBT rai cwestiynau ynglŷn ag ymatebwyr yn datgelu cyfeiriadedd rhywiol mewn gofal iechyd.** Roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol; y rheswm am beidio â gwneud hynny a roddwyd amlaf oedd nad oeddent yn meddwl ei fod yn berthnasol. O'r rhai a wnaeth ddewis datgelu, teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr ei fod wedi cael effaith positif neu niwtral ar eu gofal. Y prif ganfyddiadau oedd:

    a. roedd mwy na hanner yr ymatebwyr â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol wedi datgelu neu drafod eu cyfeiriadedd rhywiol gyda staff gofal iechyd, rywfaint, y rhan fwyaf neu trwy'r amser yn y 12 mis cyn yr arolwg

    b. y rheswm a roddwyd amlaf am beidio â datgelu neu drafod cyfeiriadedd rhywiol gyda staff gofal iechyd oedd nad oedd yr ymatebwyr yn meddwl ei fod yn berthnasol

79. **Rydym am sicrhau bod gwasanaethau'r llywodraeth yn monitro'r nodweddion a ddiogelir hyn mewn modd cyson, parchus a chymesur.** Nid oes angen i bob gwasanaeth llywodraeth ofyn y cwestiynau hyn; pan fydd y dystiolaeth yn awgrymu ei fod, rydym am sicrhau bod y monitro yn cael ei wneud yn gyson ac yn dda a bod pobl LGBT yn teimlo yn gyfforddus yn datgelu eu hunaniaeth.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud

80. **Byddwn yn galluogi gwasanaethau'r llywodraeth i fonitro cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd yn briodol.** Bydd Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiect traws lywodraethol i ddatblygu safonau monitro ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd ar draws y llywodraeth ganolog. Bydd y safonau hyn ar gael yn rhwydd i'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn ehangach. Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhoi cyfarwyddyd a chefnogaeth i adrannau sy'n gobeithio gweithredu monitro yn eu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gyson, cymesur a diogel.

81. **Byddwn yn sicrhau bod y Gwasanaeth Sifil yn gyflogwr sy'n esiampl i bawb o ran casglu data am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd mewn modd sensitif, parchus a chymesur.** Bydd Adnoddau Dynol y Gwasanaeth Sifil, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth yn gweithio i ddatblygu cwestiynau safonol i'w cynnwys mewn systemau adrannol mewnol fel systemau adnoddau dynol ar gyfer gweithwyr y llywodraeth. Bydd Adnoddau Dynol y Gwasanaeth Sifil yn cynnwys cwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd yn yr Arolwg Pobl Gwasanaeth Sifil blynyddol fel y gellir deall profiadau amrywiol gweision sifil yn well.

82. **Byddwn yn rhoi cyfarwyddyd ar ddiogelu data preifat am nodweddion a hanes pobl drawsryweddol.** Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ac asiantaethau eraill i gytuno ar gyfarwyddyd i sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat yn esbonio sut y gallant ddiogelu'r data yma a sicrhau preifatrwydd pobl draws. Bydd y cyfarwyddyd yn helpu sefydliadau i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol fel y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Cydnabod Rhywedd 2004.

83. **Yn unol â dull y Llywodraeth o ymdrin â data agored,[8] byddwn yn archwilio beth yw'r ffordd orau o wneud cymaint o ddata'r arolwg cenedlaethol LGBT â phosibl ar gael.** Rydym yn sylweddoli bod y data yr ydym wedi ei gasglu yn werthfawr a chynhwysfawr. Ni fyddwn yn rhannu na chyhoeddi unrhyw ddata y gellir adnabod unigolion oddi wrtho, ond bydd Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth yn ceisio cyhoeddi mwy o ddata dienw, wedi ei grynhoi a fydd o ddefnydd i ymchwilwyr, academyddion, rhanddeiliaid, y cyfryngau, llunwyr polisïau a'r cyhoedd yn gyffredinol.

84. **Byddwn yn gwneud rhagor o waith i wella ein dealltwriaeth o anghenion grwpiau penodol yn y boblogaeth LGBT.** Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn ceisio gwella'r dystiolaeth sydd ar gael am brofiadau grwpiau gan gynnwys pobl hŷn, pobl mewn gofal, pobl ag anableddau a chyflyrau tymor hir, a phobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.

[8] https://data.gov.uk/about

# Cynrychiolaeth

85. **Mae nifer gynyddol o bobl LGBT yn llygad y cyhoedd, gan helpu i normaleiddio profiadau pobl LGBT a thaclo homoffobia, deuffobia a thrawsffobia.** Dengys y sylfaen bresennol o dystiolaeth bod y graddau y mae'r cyhoedd yn gyffredinol yn derbyn perthnasau o'r un rhyw ymhlith y cyhoedd ar lefel uwch nag y bu erioed ac mae'n parhau i godi, gyda 64% o'r cyhoedd ym Mhrydain yn dweud bod perthnasau rhwng dau o'r un rhyw 'ddim yn anghywir o gwbl' yn 2016, i fyny o 47% yn 2012, ac 11% yn 1987.[9] Er gwaethaf hyn, dangosodd ein harolwg nad yw llawer o bobl LGBT yn teimlo yn gyfforddus yn bod yn hwy eu hunain yn y Deyrnas Unedig.

86. **Gofynnodd yr arolwg cenedlaethol LGBT i'r ymatebwyr a oeddent yn agored am eu hunaniaeth.** Gofynnodd ein harolwg i'r ymatebwyr gyda chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol a oeddent wedi osgoi gafael yn llaw partner o'r un rhyw yn gyhoeddus ac a oeddent yn agored am eu cyfeiriadedd rhywiol. Gofynnwyd i ymatebwyr traws hefyd a oeddent wedi osgoi bod yn agored am eu hunaniaeth rhywedd.

87. **Er gwaethaf y graddau cynyddol y mae pobl LGBT yn cael eu derbyn, canfu ein harolwg bod ymatebwyr i'r arolwg yn dangos ymddygiad osgoi yn arferol.** Y prif ganfyddiadau o'r arolwg LGBT oedd:

    a. Dywedodd 68% o'r ymatebwyr â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol eu bod wedi osgoi dal dwylo gyda phartner o'r un rhyw yn gyhoeddus

    b. Dywedodd 70% o'r ymatebwyr â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol eu bod wedi osgoi bod yn agored am eu cyfeiriadedd rhywiol rhag ofn cael ymateb negyddol gan eraill

    c. Dywedodd 67% o ymatebwyr traws eu bod wedi osgoi bod yn agored am eu hunaniaeth o ran rhywedd

88. **Rydym am lunio cymdeithas sy'n derbyn pawb, beth bynnag yw eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd.** Rydym am i bobl LGBT deimlo yn gyfforddus yn bod yn nhw eu hunain yn gyhoeddus, a pheidio â theimlo eu bod yn gorfod cuddio pwy ydyn nhw.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud

89. **Byddwn yn treialu ffyrdd blaengar o daclo rhagfarn ddofn yn ein cymunedau.** Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn gweithio ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i wella cynrychiolaeth pobl

[9] NatCen Social Research (2017) *British Social Attitudes 34*

LGBT mewn bywyd cyhoeddus, gan dynnu sylw at fodelau rôl a rhoi hyder i bobl fod yn nhw eu hunain yn gyhoeddus. Bydd Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth hefyd yn edrych ar sut y gall dealltwriaeth o ymddygiad gael ei ddefnyddio i wella agweddau pobl at bobl LGBT yn fwy cyflym.

90. **Byddwn yn cefnogi rôl bwysig digwyddiadau 'pride' lleol ar draws y Deyrnas Unedig.** Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn parhau i gael presenoldeb mewn digwyddiadau Pride ar draws y wlad, gan roi cyfle i ni gael clywed yn uniongyrchol gan bobl LGBT. Bydd y Gwasanaeth Sifil yn dangos ei ymrwymiad ei hun i ddod yn gyflogwr mwyaf cynhwysol y Deyrnas Unedig trwy gael presenoldeb mewn digwyddiadau Pride bob blwyddyn a thrwy gefnogi rhwydweithiau staff adrannol a'r holl staff ar draws rhywedd, ethnigrwydd, ffydd a chred, oedran ac anabledd i ymwneud â'r digwyddiadau hyn.

91. **Byddwn yn gweithio i ymdrin â stereoteipiau rhywedd a normau rhywedd niweidiol.** Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r cyfryngau ac ysgolion i herio stereoteipiau rhywedd, a bydd hefyd yn datblygu'r dystiolaeth am achos ac effaith normau rhywedd.

92. **Byddwn yn parhau ein gwaith i gynyddu cynhwysiant LGBT mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.** Yn dilyn cyhoeddi 'Sporting Future' yr Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau corfforol, mae Sport England yn rhoi help arbenigol i sefydliadau chwaraeon i gynyddu cyfranogiad pobl LGBT mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Mae Sport England hefyd yn gweithio i wella mynediad LGBT at weithgaredd chwaraeon a chorfforol fel gwylwyr, gwirfoddolwyr ac yn y gweithlu. Mae'n gweithio ochr yn ochr â Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol chwaraeon a sefydliadau chwaraeon sy'n canolbwyntio ar bobl LGBT ar nifer o gynlluniau cydraddoldeb a fwriadwyd i gynnwys pobl LGBT, ac mae hefyd yn gweithio gyda nifer o bartneriaid ar draws y diwydiant hamdden, gan gynnwys y Sefydliad Siartredig ar gyfer Rheoli Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol, i ddatblygu cyfarwyddyd am gynnwys pobl draws ar gyfer staff y diwydiant hamdden sydd ar y rheng flaen. Bydd Sport England hefyd yn monitro cynrychiolaeth pobl LGBT o ran uwch arweinwyr ochr yn ochr ag elfennau eraill o amrywiaeth, yn dilyn lansio'r Cod ar gyfer Llywodraethu Chwaraeon yn Hydref 2016. Yn dilyn buddsoddiad Sport England mewn astudiaeth gan Pride Sports i ddynodi sut i gefnogi cynnwys pobl LGBT yn well mewn chwaraeon, bydd Sport England yn ystyried argymhellion yr ymchwil.

# Rhyngwladol

93. **Er bod y Deyrnas Unedig yn un o'r arweinwyr trwy'r byd o ran hawliau LGBT, rydym yn gwybod bod mwy i'w wneud o gwmpas y byd i gefnogi pobl LGBT.** Rydym yn cael ein calonogi gan y cynnydd y mae llawer o wledydd yn ei wneud, ac yn croesawu'r gwaith a amlygwyd yn y gynhadledd ddiweddar gan y Gymanwlad yn Llundain i symud tuag at fyd mwy cyfartal i bobl LGBT.

94. **Nid oedd yr arolwg LGBT yn gofyn unrhyw gwestiynau penodol am faterion rhyngwladol, ond dewisodd llawer o ymatebwyr sôn amdanynt yn yr ymateb testun rhydd agored.** Rydym yn gwybod bod gweithredoedd rhywiol rhwng dau o'r un rhyw sy'n cydsynio yn dal yn anghyfreithlon mewn 72 o wledydd a chosb o farwolaeth amdanynt mewn wyth, a bod 37 allan o 53 o wledydd y Gymanwlad yn dal i droseddoli gweithredoedd rhywiol rhwng dau o'r un rhyw sy'n cydsynio.

95. **Credwn fod pobl LGBT o gwmpas y byd yn haeddu o leiaf yr un hawliau a pharch ag yr ydym yn eu mwynhau yn y Deyrnas Unedig a bod gan y Deyrnas Unedig gyfrifoldeb arbennig i ymdrin â chyfreithiau sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl LGBT yn y Gymanwlad.** Byddwn yn parhau i amddiffyn hawliau pobl LGBT trwy'r byd.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud

96. **Byddwn yn cefnogi gwledydd sydd am ddiddymu cyfreithiau sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl LGBT.** Cynigiodd y Prif Weinidog gefnogaeth i wledydd y Gymanwlad sy'n dymuno diwygio deddfwriaeth wahaniaethol. Bydd rhaglen £5.6 miliwn a gyflawnir trwy sefydliadau cymdeithas sifil yn hybu cydraddoldeb cyfreithiol a hawliau holl ddinasyddion y Gymanwlad, beth bynnag yw eu rhywedd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd.

97. **Byddwn yn trefnu cynhadledd ryngwladol yn canolbwyntio ar y problemau y mae pobl LGBT yn eu hwynebu o gwmpas y byd.** Bydd y gynhadledd yn amlygu amrywiaeth o broblemau gyda llywodraethau, cymdeithas sifil a rhanddeiliaid allweddol eraill ar sut i symud cydraddoldeb LGBT yn ei flaen.

98. **Byddwn yn darparu gwell cyngor teithio i bobl LGBT.** Bydd y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn parhau i ddiweddaru ac adolygu ein cyngor teithio i bobl LGBT yn gyson. Yn benodol, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ein cyngor i deithwyr traws sy'n mynd dramor am driniaeth feddygol yn rhoi cymaint o wybodaeth ac mor gyfredol â phosibl. Bydd y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn sicrhau bod materion sy'n benodol i deithwyr LGBT yn cael eu trin mewn cyfathrebiadau cyngor teithio.

99. **Byddwn yn hyrwyddo hawliau LGBT trwy sefydliadau amlochrog, y sector preifat a sefydliadau cymdeithas sifil rhyngwladol.** Bydd y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn parhau i weithio trwy lysgenadaethau, uchel gomisiynau'r Deyrnas Unedig a thrwy sefydliadau rhyngwladol, gan gynnwys y Cenhedloedd

Unedig, y sefydliad Ewropeaidd a’r Gymanwlad, i ddiogelu a hyrwyddo hawliau LGBT ac i ymdrin â chyfreithiau sy’n gwahaniaethu yn erbyn pobl LGBT. Bydd y Deyrnas Unedig yn ystyried cyflwyno cais i gyd-gadeirio’r Gynghrair Hawliau Cyfartal yn 2019.

100. **Byddwn yn rhoi cyllid i hyrwyddo cydraddoldeb LGBT trwy’r byd.** Ymrwymodd Cronfa Magna Carta Hawliau Dynol a Democratiaeth y Swyddfa Dramor a’r Gymanwlad £1.1 miliwn i gefnogi prosiectau hawliau LGBT trwy’r byd yn 2018 a 2019. Bydd Swyddfa Cydraddoldebau’r Llywodraeth yn rhoi arian cyfatebol i waith y Sefydliad Cydweithrediad Economaidd a Datblygu ar adolygu cynhwysiant LGBT. Fel rhan o beirianwaith cyllido newydd yr Adran Ddatblygu Rhyngwladol– UK Aid Connect – ac i gydnabod pwysigrwydd cynhwysiant LGBT byd-eang, bydd yr Adran Ddatblygu Rhyngwladol yn rhoi hyd at £12 miliwn dros bedair blynedd, o 2018 i 2022, i gonsortiwm o sefydliadau weithio gyda’i gilydd i hyrwyddo cynhwysiant LGBT.

# Camau nesaf

101. **Rydym wedi ymrwymo i daclo'r anghyfiawnder dwys y mae pobl LGBT yn ei wynebu yn eu bywydau bob dydd.** Mae'r ymrwymiadau yr ydym wedi eu gwneud yn y cynllun gweithredu hwn yn helpu i ddechrau gwneud hynny.

102. **Rydym yn anelu at gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y cynllun gweithredu hwn erbyn diwedd y Senedd hon.** Rydym wedi dyrannu cyllid hyd at Fawrth 2020 i gyflawni'r cynllun a byddwn yn ceisio sicrhau cyllid ychwanegol tu hwnt i Fawrth 2020 pan fydd cyllidebau adrannol yn cael eu gosod yn ddiweddarach yn y Senedd hon.

103. **Er mwyn ein helpu i arwain a chyflawni'r cynllun hwn, byddwn yn sefydlu Panel Cynghori LGBT newydd i'r llywodraeth.** Bydd y Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldebau yn penodi aelodau'r grŵp a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o gymdeithas sifil. Bydd y panel yn cynghori ar faterion LGBT y mae gennym ddiddordeb ynddynt.

104. **Byddwn yn galluogi'r Senedd i chwarae rôl lawn yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb LGBT.** Byddwn yn rhoi adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Dethol ar Ferched a Chydraddoldeb, gan esbonio ein cynnydd mewn cymhariaeth â'r cynllun hwn. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y Senedd yn gallu ein cadw at ein gair y byddwn yn amddiffyn, ymestyn a hyrwyddo hawliau a rhyddid pobl LGBT yma a thramor.

105. **Er bod hwn yn gynllun gweithredu cenedlaethol, mae'n trafod rhai meysydd polisi sydd wedi eu datganoli.** Bydd yn cael lefelau amrywiol o effaith ar draws pedair cenedl y Deyrnas Unedig, oherwydd y trefniadau datganoli sy'n bodoli. Bydd mwyafrif yr ymrwymiadau yn y cynllun gweithredu hwn yn cael effaith yn Lloegr yn unig, gan fod meysydd polisi fel iechyd ac addysg wedi eu datganoli yn llawn i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Bydd rhai ymrwymiadau, fel y rhai ar gyfiawnder, plismona a chydnabod rhywedd, yn cael effaith yng Nghymru hefyd. Bydd ymrwymiadau eraill, er enghraifft i ddod â therapi tröedigaeth i ben, yn gofyn am weithredu trwy'r Deyrnas Unedig gyfan.

106. **Mae'r cyllid ar gyfer y cynllun gweithredu hwn yn berthnasol i Loegr yn unig, ac nid yw'n effeithio ar y trefniadau cyllido mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.** Dim ond sefydliadau sy'n gweithredu yn Lloegr neu yn gweithredu trwy'r Deyrnas Unedig i gyd fydd yn gallu cael mynediad at y cyllid y mae GEO yn sicrhau ei fod ar gael i gyflawni prosiectau penodol.

107. **Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda llywodraethau'r gweinyddiaethau datganoledig ar gyflawni'r ymrwymiadau yn y cynllun gweithredu hwn.** Byddwn yn archwilio ffyrdd o gydweithio i sicrhau ein bod yn bodloni anghenion yr holl bobl LGBT ar draws pob rhan o'r Deyrnas Unedig.

978-1-78655-668-4